

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Church Road,
Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mawrth 2026

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mehefin 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Church Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd ar 11 Mawrth 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur i ddweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth gan gleifion am Bractis Deintyddol Church Road yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'. Disgrifiodd y cleifion safon uchel o ofal a gwnaethant ddweud bod y cyfathrebu'n glir, yn barchus ac yn gefnogol. Roedd trefniadau ar waith i helpu cleifion i ddeall eu gofal a'u cynnwys yn y penderfyniadau a wneir, ac roedd cleifion yn gallu cael gafael ar wasanaethau mewn modd amserol.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd yn ymwneud â gofal ataliol ac iechyd y geg yn cael ei harddangos yn yr ardal aros. Gwnaethom nodi rhai cyfleoedd i wella'r ystod o wybodaeth am y gwasanaeth a oedd ar gael i gleifion ar adeg yr arolygiad. Wedi hynny, darparodd y practis dystiolaeth i ddangos bod gwybodaeth gan gynnwys oriau agor, enwau staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC), a naw egwyddor graidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi cael eu hychwanegu at yr hysbysfwrdd i gleifion.

Ni welsom dystiolaeth bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn; fodd bynnag, cadarnhaodd y practis fod staff y dderbynfa bellach yn gofyn i gleifion yn rheolaidd am eu dewis iaith ac yn cofnodi'r wybodaeth hon er mwyn gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod eu preifatrwydd yn cael ei gynnal
- Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth hybu iechyd y geg ar gael i gefnogi cleifion
- Roedd cleifion yn gallu cael apwyntiadau'n hawdd a chael gofal brys pan oedd ei angen.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gofal yn y practis yn cael ei ddarparu'n ddiogel ac yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol. Roedd systemau ar waith i gefnogi gwaith rheoli risg, atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau a diogelu, ac roedd y staff yn dangos dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd cofnodion cleifion yn glir, yn gynhwysfawr ac yn cael eu cynnal yn dda, gan gefnogi parhad gofal a phroses ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol effeithiol.

Nodwyd rhai meysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys agweddau ar drefniadau storio, megis lleoliad deunyddiau gwastraff clinigol a chyfarpar glanhau, a chysondeb prosesau monitro meddyginiaethau. Gwnaethom hefyd nodi cyfle i gryfhau gwiriadau diogelwch clinigol arferol ymhellach. Darparodd y practis dystiolaeth ar ôl yr arolygiad i ddangos ei fod wedi ymdrin â'r materion hyn yn ddi-oed. Roedd hyn yn cynnwys gwneud addasiadau priodol i drefniadau storio, cryfhau gwaith monitro meddyginiaethau, a chyflwyno gwiriadau diogelwch clinigol ychwanegol drwy roi rhestr wirio ar waith ar gyfer tynnu dannedd drwy lawdriniaeth y geg, gan ddarparu gwell sicrwydd mewn perthynas â diogelwch a goruchwyliaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelwyd bod amgylchedd y practis yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gan ddarparu lleoliad dymunol i gleifion dderbyn gofal ynddo.
- Roedd gwiriadau diogelwch a threfniadau diogelwch tân addas ar waith
- Roedd cyfarpar clinigol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn addas at y diben, gan gefnogi gofal diogel i gleifion
- Roedd polisiau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith ac roedd arweinydd diogelu wedi'i benodi.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod trefniadau rheoli priodol ar waith. Roedd rheolwr y practis yn ymrwymedig ac yn ymroddedig i'r rôl. Roedd systemau a phrosesau ar waith i gefnogi prosesau llywodraethu, rheoli'r gweithlu a gwella ansawdd, a disgrifiodd y staff amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol gyda chyfathrebu effeithiol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi rhai meysydd lle gellid cryfhau prosesau ymhellach, gan gynnwys trefniadau rheoli dogfennau (yn benodol eglurder ynghylch rheoli fersiynau a dyddiadau adolygu polisiau) a chofnodi adborth anffurfiol gan gleifion yn gyson. Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad bod camau wedi cael eu cymryd ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn, a oedd wedi helpu i wella effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ymatebodd y practis yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r arolygiad gan roi gwelliannau ar waith yn ddi-oed
- Roedd prosesau recriwtio cadarn ar waith, gan gynnwys gwiriadau priodol cyn cyflogi a hyfforddiant sefydlu strwythuredig

- Roedd y practis yn cynnal gweithgarwch archwilio ac yn cymryd rhan yng Nghynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain i gefnogi gwelliant parhaus.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr adborth gan gleifion ynglŷn â Phractis Deintyddol Church Road yn gadarnhaol iawn. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Cefais ddigon o wybodaeth a gwasanaeth cysylltiedig iawn - rhagorol.”

“Gofal a thriniaeth eithriadol.”

“Rydw i wedi bod ofn y deintydd erioed ond ers cael fy nhrin yma rydw i wedi gwella. Hefyd, mae staff y dderbynfa yn arbennig.”

“Rwyf wedi bod yn glaf yn y practis hwn ers blynyddoedd lawer ac nid wyf erioed wedi cael fy nhemtio i newid. Mae hynny'n adrodd cyfrolau.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod amrywiaeth dda o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn yr ardal aros am ofal ataliol a hylendid y geg, yn ogystal ag effeithiau smygu ar iechyd y geg. Gwelsom hefyd fod prisiau triniaethau yn cael eu harddangos yn glir yn yr ystafell aros.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn ffordd glir a hygyrch. Roedd pawb a ymatebodd yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth sydd ar gael. Dywedodd y cleifion hefyd fod y costau wedi cael eu cyfleu'n glir cyn y driniaeth.

Roedd y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael ar-lein ac yn gyfredol. Gwelsom fod y ddwy ddogfen yn glir, yn gynhwysfawr ac o ansawdd da, gan roi gwybodaeth berthnasol a defnyddiol i gleifion am y gwasanaeth.

Roeddem yn teimlo y gallai rhywfaint o wybodaeth allweddol am y gwasanaeth gael ei harddangos yn haws i gleifion, gan gynnwys oriau agor a gwybodaeth am y

staff clinigol presennol. Cawsom gadarnhad ar ôl yr arolygiad fod y wybodaeth hon bellach yn cael ei harddangos ar yr hysbysfwrdd i gleifion yn yr ardal aros.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod mesurau ar waith i gefnogi preifatrwydd ac urddas y cleifion. Dywedwyd wrthym y gallai cleifion ddefnyddio ystafell rheolwr y practis ar gyfer trafodaethau preifat neu gyfrinachol os oedd angen. Gwelsom hefyd fod cynllun y dderbynfa yn darparu lefel gyffredinol o breifatrwydd, a gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau yn ystod triniaethau i gefnogi urddas a chyfrinachedd.

Roedd pawb a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno'n gryf fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd y cleifion hefyd yn cytuno'n gryf bod y staff wedi esbonio beth roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad ac wedi gwrandao arnynt neu wedi ateb eu cwestiynau. Nododd y cleifion:

“Gwnaed i mi deimlo'n gyfforddus bob amser yn ystod triniaethau”

“Rydw i wedi bod yn dod yma ers 20 mlynedd, ac maen nhw wedi fy nhrin ag urddas a pharch bob tro”

Gwnaethom nodi bod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn ystafell y staff. Gwnaethom sôn y dylid hefyd arddangos yr egwyddorion hyn mewn ardal lle y gall y cleifion eu gweld yn hawdd. Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad bod yr egwyddorion wedi cael eu hychwanegu at yr hysbysfwrdd i gleifion wedi hynny.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom fod cleifion yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Dywedodd pawb a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am risgiau a manteision y driniaeth a bod y costau wedi cael eu cyfleu'n glir cyn dechrau'r driniaeth. Dywedodd pob ymatebydd ei fod yn cael ei gynnwys cymaint ag yr oedd am gael ei gynnwys wrth wneud penderfyniadau am ei driniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, drwy e-bost neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa, ac nad oedd y practis yn cynnig cyfleuster trefnu apwyntiadau ar-lein. Dywedwyd wrthym mai nod y practis oedd delio ag apwyntiadau brys o fewn 48 awr, ac yn gynt lle roedd gan gleifion angen clinigol

brys, fel chwydd. Dywedwyd wrthym hefyd fod amser wedi'i neilltuo yn ystod clinigau ar gyfer apwyntiadau brys.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen, gyda'r gweddill yn dweud ei bod yn 'eithaf hawdd'. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cyfathrebu'n fewnol i sicrhau bod staff y dderbynfa yn ymwybodol os oedd clinigau ar ei hôl hi ac y byddai cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi wrth gyrraedd y practis. Dywedodd y practis mai'r amser aros cyfartalog ar gyfer apwyntiadau arferol oedd tua phythefnos.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwnaethom nodi bod rhywfaint o wybodaeth ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys y polisi cwynion. Dywedodd y practis y gallai gwybodaeth gael ei darparu yn Gymraeg ar gais lle bo modd. Dywedodd un claf a gwblhaodd holiadur AGIC ac a nododd mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith nad oedd yn cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg yn ystod ei ymweliad mewn modd rhagweithiol. Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn gallu siarad Cymraeg. Gwnaethom drafod a allai defnyddio bathodynau 'laith Gwaith' helpu i ddangos i'r cleifion pa aelodau o'r staff oedd yn siarad Cymraeg, a chadarnhaodd y practis wedi hynny fod y bathodynau wedi cael eu cyflwyno.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, ni welsom dystiolaeth bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi fel mater o drefn. Ar ôl yr arolygiad, cadarnhaodd y practis fod staff y dderbynfa bellach yn gofyn i gleifion yn rheolaidd am eu dewis iaith ac yn cofnodi'r wybodaeth hon er mwyn helpu i gyfathrebu'n effeithiol.

Hawliau a chydraddoldeb

Dywedwyd wrthym fod gan y practis bolisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ar gyfer cleifion a staff, a bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu trafod yn agored o fewn y tîm. Disgrifiodd y staff ymwybyddiaeth o'r angen i drin cleifion yn deg ac i barchu anghenion a dewisiadau unigol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir ni waeth a oedd ganddynt nodweddion gwarchodedig ai peidio. Ni wnaeth unrhyw ymatebwyr nodi eu bod wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth neu wrth ei ddefnyddio.

Roedd ramp cludadwy ar gael i helpu unigolion i ddod i mewn i'r adeilad. Roedd rhai o'r deintyddfeydd a'r toiled i gleifion wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, a oedd yn golygu eu bod yn hygyrch i gleifion nad oeddent yn gallu cyrraedd y llawr cyntaf. Dywedwyd wrthym y byddai staff yn ystyried anghenion unigol ac yn gwneud addasiadau rhesymol lle bo modd i helpu cleifion i gael gofal.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Yn ôl pob golwg, roedd pob rhan o'r practis, y tu mewn a'r tu allan, yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Fodd bynnag, gwnaethom nodi crac mawr ar wal allanol yn ystafell y staff. Gwnaethom drafod hyn gyda'r staff, a gadarnhaodd fod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r mater a'u bod wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer gwaith atgyweirio.

Roedd y practis o faint a chynllun addas i ddarparu'r gwasanaethau. Roedd loceri ar gael i'r staff storio eitemau personol yn yr ystafell staff.

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau diogelwch allweddol wedi'u cwblhau, gan gynnwys gwiriadau diogelwch nwy, profion offer cludadwy ac archwiliad gosodiadau trydanol bob pum mlynedd. Roedd trefniadau diogelwch tân addas ar waith hefyd. Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau'n ddiweddar, a gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar diogelwch tân yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân a chyfarwyddiadau ar beth i'w wneud pe bai tân i'w gweld yn amlwg ym mhob rhan o'r safle. Gwelsom arwyddion yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis yn cael ei harddangos y tu ôl i ddesg y dderbynfa, a nodwyd gennym nad oedd mewn ardal lle gallai cleifion ei gweld yn hawdd. Cawsom gadarnhad yn dilyn yr arolygiad bod y dystysgrif wedi cael ei symud i'r hysbysfwrdd i gleifion. Roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'w gweld yn y coridor ar y llawr gwaelod a oedd yn cael ei ddefnyddio gan bob aelod o'r staff.

Dywedwyd wrthym fod polisi parhad busnes ar waith, ynghyd â gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r amrywiaeth lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiad brys neu fethiant o ran systemau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt allweddol ar gyfer contractwyr a gwasanaethau cymorth perthnasol eraill. Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad bod manylion cyswllt ychwanegol wedi cael eu hychwanegu at y cynllun parhad busnes, gan atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer rheoli achosion posibl o darfu ar wasanaethau yn effeithiol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr ardaloedd o'r practis roedd y cleifion yn mynd iddynt yn lân ac yn daclus. Roedd pawb a gwblhaodd holiadur AGIC yn dweud bod y practis yn 'lân iawn' a'u bod yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn. Roedd amserlenni glanhau, cyfleusterau hylendid dwylo a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol fel menig a masgiau yn cefnogi arferion rheoli heintiau effeithiol ym mhob rhan o'r lleoliad.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi rhai ardaloedd lle gellid gwella'r trefniadau er mwyn cefnogi prosesau atal a rheoli heintiau ymhellach. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn sied pramiau allanol ochr yn ochr ag eitemau eraill, gan gynnwys stoc a modelau cleifion. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei roi mewn bagiau ac yn cael ei wahanu'n briodol oddi wrth eitemau eraill yn yr ardal; fodd bynnag, nid oedd storio gwastraff clinigol a deunyddiau anghlinigol yn cyd-fynd â'r canllawiau arfer gorau. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd rhai eitemau stoc mewn bocsys neu nad oeddent yn eu pecynnau, a bod modelau cleifion yn cael eu storio mewn bagiau gwastraff clinigol yn hytrach na chynwysyddion wedi'u selio, y gellir eu glanhau.

Yn ogystal, roedd cyfarpar glanhau, gan gynnwys mopiau a bwcedi, yn cael ei storio yn y labordy deintyddol lle roedd argraffiadau a modelau yn cael eu paratoi. Er nad oedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio i ddihalogi offer, gwnaethom nodi y gallai storio cyfarpar glanhau mewn mannau lle mae prosesau clinigol yn cael eu cynnal gynyddu'r risg o groes-halogi.

Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad bod camau di-oed wedi cael eu cymryd i ymdrin â'r materion hyn. Cadarnhaodd y practis fod y trefniadau storio wedi cael eu hadolygu a'u gwella, gan gynnwys gwahanu eitemau gwastraff clinigol ac anghlinigol a symud cyfarpar glanhau i ardaloedd priodol, gan roi gwell sicrwydd bod trefniadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal.

Wrth i ni gerdded o amgylch y practis, gwelsom sofffa yn un o'r deintyddfeydd nad oedd wedi'i gwneud o ddefnydd y gellir ei sychu'n lân. Roedd hyn yn cyfyngu ar y gallu i lanhau'r seddi yn effeithiol ac yn cyflwyno risg atal a rheoli heintiau bosibl mewn ardal y mae'r cleifion yn mynd iddi.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl seddi yn yr ardaloedd clinigol wedi'u gwneud o ddefnyddiau y gellir eu sychu'n lân er mwyn gallu glanhau a diheintio'n effeithiol.

Roedd y trefniadau ar gyfer dihalogi offer yn cyd-fynd â'r canllawiau cydnabyddedig. Roedd systemau ar waith i helpu i lanhau a sterileiddio offer yn ddiogel, gyda phrosesau priodol yn cael eu defnyddio yn yr ardaloedd dihalogi. Gwelsom hefyd fod offer yn cael eu cludo rhwng ardaloedd clinigol a'r ystafelloedd

dihalogi, a bod prosesau ar wahân ar waith ar gyfer rhai eitemau, fel argraffiadau deintyddol. Roedd archwiliadau arferol o brosesau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05, a gwelsom fod staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn gymwys mewn gweithdrefnau dihalogi.

Rheoli meddyginiaethau

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi dau faes lle gellid cryfhau'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Nid oedd midazolam yn cael ei storio mewn cwpwrdd dan glo, ac nid oedd meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio mewn oergell dan glo. Nid oedd system gyson ar waith i fonitro a chofnodi tymheredd oergelloedd ychwaith. Roedd hyn yn cyfyngu ar y gallu i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac o fewn yr ystod tymhereddau ofynnol i gynnal eu diogelwch a'u heffeithiolrwydd.

Gwnaethom hefyd drafod lleoliad y cyffuriau brys, a oedd yn hygyrch i'r staff ar adeg yr arolygiad, ond cytunwyd i'w symud i gwpwrdd dan glo ochr yn ochr â'r midazolam er mwyn gwella'r trefniadau storio ymhellach. Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad bod camau di-oed wedi cael eu cymryd i ymdrin â'r materion hyn. Cadarnhaodd y practis fod y cyffuriau brys a'r midazolam wedi cael eu symud i fan storio dan glo er mwyn gwella diogelwch a hygyrchedd. Yn ogystal, roedd camau diogelu wedi'u cymryd mewn perthynas â'r oergelloedd meddyginiaethau, roedd dyfeisiau monitro tymheredd wedi cael eu gosod, ac roedd gwiriadau tymheredd dyddiol yn cael eu cofnodi.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod polisi diogelu (plant ac oedolion) addas ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt perthnasol i roi gwybod am bryderon. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd siart lif diogelu ffurfiol ar waith adeg yr arolygiad. Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad bod canllaw diogelu cam wrth gam wedi cael ei roi ar waith i helpu'r staff i nodi pryderon diogelu, ymateb iddynt a rhoi gwybod amdanynt.

Roedd y practis wedi dynodi arweinydd diogelu penodedig. Roedd y canllawiau diogelu cenedlaethol ar gael i'r staff, ac roedd ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael drwy reolwr y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu ac yn gallu disgrifio â phwy y byddent yn cysylltu pe bai ganddynt bryder. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu cyfredol ar gyfer plant ac oedolion.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelwyd bod y cyfarpar yn yr ardaloedd clinigol yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, gan helpu i ddarparu gofal diogel. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer gwasanaethu a chynnal a chadw cyfarpar, fel y cywasgydd, yn rheolaidd.

Gwelsom fod cyfarpar yn cael ei storio'n briodol yn yr ardaloedd clinigol a'i fod ar gael yn hwylus i'r staff pan oedd ei angen. Roedd y cynllun a'r cyfarpar oedd ar gael yn helpu i ddarparu gofal yn effeithlon ac nid oedd unrhyw risgiau amlwg i ddiogelwch cleifion na staff.

Roedd cyfarpar pelydr-X ar gael yn y practis, ac roedd ffeil diogelu rhag ymbelydredd ar waith fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hysbysu am y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd, a gwelsom fod cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant a welsom fod y staff wedi cael hyfforddiant priodol a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd arwyddion rhybudd pelydr-X priodol ar gael uwchben drws pob deintyddfa ar adeg yr arolygiad. Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad bod arwyddion priodol wedi'u gosod yn yr ardaloedd clinigol er mwyn helpu i sicrhau bod y cyfarpar radiograffig yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod gan y practis drefniadau diogel ar waith i drin cleifion a chawsom sicrwydd bod canllawiau rheoliadol a statudol perthnasol yn cael eu dilyn. Roedd y staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gallu disgrifio sut roeddent yn darparu gofal yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael fel bod modd dihalogi'n effeithiol rhwng eu defnyddio. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, nid oedd trefniadau i gefnogi'r defnydd o Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol ar waith yn gyson er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir. Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad bod rhestr wirio cyn tynnu dannedd drwy lawdriniaeth fach yn y geg wedi cael ei rhoi ar waith yn y practis i atgyfnerthu mesurau diogelu a helpu i ddarparu gofal diogel.

Cofnodion cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel yn unol â pholisi rheoli cofnodion y practis.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a gwelsom eu bod yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Roedd y cofnodion yn cynnig hanes clir o'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ac roeddent yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi parhad gofal ac i wneud penderfyniadau clinigol.

Roedd y cofnodion yn cynnwys dynodyddion cleifion, hanes deintyddol a chymdeithasol blaenorol, y rheswm dros fynychu, symptomau a chynlluniau triniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod cydsyniad yn cael ei gofnodi, ac roedd y cyfnodau galw'n ôl yn unol â chanllawiau NICE. Roedd cyngor ataliol gan gynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu hefyd yn cael ei ddogfennu lle y bo'n berthnasol. Roedd cofnodion wedi'u teilwra at yr unigolyn ac roeddent yn cynnwys cofnodion clinigol llawn, megis siartiau, archwiliadau meinwe meddal ac Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE), lle y bo'n briodol. Roedd cynlluniau ac opsiynau triniaeth hefyd yn cael eu cofnodi'n glir er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwnaethom nodi bod trefniadau rheoli priodol ar waith er mwyn helpu i redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am weithredu'r gwasanaeth gan ddefnyddio prosesau a systemau sefydledig. Ymatebodd rheolwr y practis yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r arolygiad a chymerodd gamau di-oed i ymdrin â'r materion a nodwyd, gan adlewyrchu dull rhagweithiol ac adeiladol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol. Gwelsom eu bod yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, ac yn cael eu cyfleu i'r staff. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen eglurder pellach mewn perthynas â threfniadau rheoli dogfennau, yn benodol o ran rheoli fersiynau a chofnodi dyddiadau adolygu polisiau yn gyson. Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad bod atodiad wedi cael ei gyflwyno i bolisiau i gofnodi dyddiadau adolygu, diweddariadau a'r camau a gymerwyd, gan atgyfnerthu'r trefniadau hyn.

Dywedwyd wrthym fod systemau ar waith i hwyluso trefniadau cyfathrebu o fewn y tîm, gan gynnwys dull drws agored a chyfarfodydd tîm lle bo angen. Dywedodd y staff fod gwybodaeth a diweddariadau'n cael eu rhannu drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys negeseuon mewnol a thrafodaethau o fewn y tîm.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Cawsom sicrwydd bod digon o staff gyda chymwysterau addas yn gweithio yn y practis. Roedd rheolwr y practis yn monitro lefelau staffio drwy brosesau rheoli rota a gwelsom mai anaml y byddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, gyda gwiriadau priodol yn cael eu cynnal lle roedd angen gwneud.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer recriwtio a sefydlu staff. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom dystiolaeth o wiriadau o fanylion adnabod, dogfennaeth hawl i weithio, cymwysterau, brechiadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y staff wedi cwblhau sesiynau sefydlu strwythuredig a oedd yn briodol i'w rolau, gan ddefnyddio rhestrau gwirio penodol i'r rôl, ac roeddent yn destun cyfnod goruchwyllo a phrosesau arfarnu parhaus.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau a bod ganddynt gofrestrïadau proffesiynol cyfredol. Fodd

bynag, gwnaethom nodi cyfle i gryfhau'r broses ar gyfer goruchwylio'r trefniadau hyfforddi ymhellach, gan nad oedd polisi wedi'i ddiffinio'n glir a oedd yn amlinellu'r gofynion hyfforddi gorfodol. Cawsom dystiolaeth yn dilyn yr arolygiad i ddangos bod polisi wedi cael ei gyflwyno, a oedd yn gwella'r broses o oruchwylio hyfforddiant y staff.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Dywedwyd wrthym fod y practis yn annog cleifion i roi adborth yn dilyn eu hapwyntiadau, yn bennaf drwy lwyfannau ar-lein. Gwelsom fod y practis yn monitro adborth ac yn ei ystyried.

Dywedwyd wrthym fod blwch wedi bod ar gael yn y gorffennol i'r cleifion roi adborth dienw ond fod y practis wedi rhoi'r gorau i'r drefn honno fel rhan o fesurau rheoli haint COVID-19. Gwnaethom edrych ar sampl o'r adborth dienw hwnnw gan gleifion, a oedd yn gadarnhaol, a chytunodd y practis i aildechrau defnyddio'r blwch adborth er mwyn cynnig cyfleoedd pellach i'r cleifion roi adborth yn ddiennw.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ar waith ac yn cael ei harddangos yn y practis.

Roedd y weithdrefn yn cynnwys gwybodaeth glir i'r cleifion am sut i fynegi pryderon a sut y byddai cwynion yn cael eu rheoli. Roedd cwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n briodol yn unol â gweithdrefnau'r practis.

Er bod cofnod cwynion ar waith, nodwyd nad oedd hwn wedi cael ei ddefnyddio fel mater o drefn i gofnodi cwynion anffurfiol neu gwynion llafar. Dywedodd y staff wrthym fod hyn oherwydd pwysau amser, a rhoesom gyngor i'r practis sicrhau bod yr holl adborth, gan gynnwys pryderon anffurfiol, yn cael ei gofnodi'n gyson i'w helpu i ddysgu.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau er mwyn helpu i wella ansawdd a monitro safonau gofal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau mewn meysydd allweddol fel atal a rheoli heintiau, radiograffeg a chanser y geg. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried ehangu ei raglen archwilio i gynnwys meysydd ychwanegol, fel presgripsiynu gwrthficrobaidd a rhoi'r gorau i smygu.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cymryd rhan yng Nghynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain er mwyn helpu'r gwasanaeth i ddatblygu'n barhaus a nodi cyfleoedd i wella ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio yn y sied pramiau allanol ochr yn ochr ag eitemau anghlinigol, gan gynnwys eitemau o stoc nad oeddent mewn bocsys nac yn eu pecynnau a modelau cleifion wedi'u storio mewn bagiau gwastraff clinigol.	Roedd hyn yn creu risg o groes-halogi ac yn lleihau'r sicrwydd bod gwastraff a chyfarpar clinigol yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol, a allai effeithio ar drefniadau atal a rheoli heintiau.	Codwyd y mater hwn ar unwaith â rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Cadarnhaodd y practis fod yr eitemau anghlinigol wedi cael eu symud o'r sied pramiau a'i dynodi fel ardal ar gyfer gwastraff clinigol yn unig. Cafodd eitemau o stoc nad oeddent mewn pecynnau eu taflu, a symudwyd y modelau cleifion i gynwysyddion priodol.
Roedd cyfarpar glanhau, gan gynnwys mopiau a bwcedi, yn cael ei storio yn y labordy deintyddol lle roedd argraffiadau a modelau yn cael eu paratoi.	Roedd hyn yn cynyddu'r risg o groes-halogi ac yn lleihau'r sicrwydd bod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn yr ardaloedd clinigol.	Codwyd y mater hwn ar unwaith â rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Cymerodd y practis gamau ar unwaith a symudodd y cyfarpar glanhau o'r labordy deintyddol yn ystod yr arolygiad, gan sicrhau ei fod yn cael ei storio mewn ardaloedd dynodedig mwy priodol.

Nid oedd midazolam a meddyginiaethau brys yn cael eu storio'n ddiogel ar adeg yr arolygiad.	Roedd hyn yn lleihau'r sicrwydd bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel, a allai beri risg i ddiogelwch cleifion pe bai unigolyn yn cael gafael ar feddyginiaethau mewn ffordd amhriodol neu pe na fyddai meddyginiaethau ar gael yn hwylus pan fo'u hangen.	Codwyd y mater hwn ar unwaith â rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Cadarnhaodd y practis fod y meddyginiaethau brys a'r midazolam wedi cael eu symud i gwpwrdd dan glo yn y dderbynfa yn ystod yr arolygiad i sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel.
---	---	--	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Church Road

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Church Road

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Yn ystod yr arolygiad, gwelsom sofffa yn un o'r deintyddfeydd nad oedd wedi'i gwneud o ddefnydd y gellir ei sychu'n lân. Roedd hyn yn cyfyngu ar y gallu i lanhau'r seddi yn effeithiol ac yn cyflwyno risg atal a rheoli heintiau bosibl mewn ardal y mae'r cleifion yn mynd iddi.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl seddi yn yr ardaloedd clinigol wedi'u gwneud o ddefnyddiau y gellir eu sychu'n lân er mwyn gallu glanhau a diheintio'n effeithiol.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Rwyf wedi cael gorchudd y gellir ei sychu.	Matthew Clark	3 wythnos

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dr Matthew Clark

Swydd: Deintydd/Perchennog a Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 21 Mai 2026